Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Llanpumsaint
# Llanpumsaint
# Caerfyrddin
# Sir Gaerfyrddin
# SA33 6BY

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Llanpumsaint

Lleolir Ysgol Gynradd Llanpumsaint ar gyrion y pentref sydd ychydig filltiroedd o dref Caerfyrddin yn awdurdod lleol Caerfyrddin. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol ac fe gyflwynir Saesneg yng nghyfnod allweddol 2.

Mae Ysgol Llanpumsaint yn un o dair ysgol sy'n gweithredu o fewn ffederasiwn ffurfiol. Bu'r ysgol mewn ffederasiwn ffurfiol gydag Ysgol Cynwyl Elfed ers nifer o flynyddoedd ac, yn ddiweddar iawn, mae Ysgol Abernant wedi ymuno â nhw yn ffurfiol yn dilyn cyfnod fel aelod anffurfiol o'r ffederasiwn hwnnw.

Mae 30 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr. Tua 42% o'r disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref. Tros dreigl tair blynedd, tua 22% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn uwch na'r ganran genedlaethol, sy'n 19%. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 23% o ddisgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn ychydig yn uwch na'r ganran genedlaethol sy'n 21%.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Ionawr 2015 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Hydref 2010.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Fel pennaeth ar dair ysgol mewn ffederasiwn lleol, mae ei weledigaeth wedi ei seilio ar yr egwyddor sy'n sicrhau bod disgyblion yn parhau i dderbyn addysg gynhwysol o fewn eu cymunedau. Mae sicrhau lles a gofal disgyblion yn ganolog i fywyd a gwaith Ysgol Llanpumsaint ac mae'r holl staff yn cydweithio'n effeithiol i sicrhau hyn. Mae pwyslais buddiol ar greu awyrgylch dysgu diogel a chynhaliol i'r disgyblion, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu hymddygiad a'u lles. Mae'r holl staff yn modelu iaith gadarn ac maent yn cyfoethogi iaith lafar y disgyblion yn effeithiol. Mae'r athrawon yn datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion o'u cymuned a diwylliant Cymru yn dda.

Fodd bynnag, nid oes gan athrawon bob amser ddisgwyliadau digon uchel o ran safonau disgyblion, yn enwedig wrth ddatblygu eu medrau ysgrifennu a'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, nid yw'r lleiafrif o ddisgyblion yn gwneud digon o gynnydd, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwella** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod arweinwyr yn canolbwyntio ar y gweithdrefnau ymarferol fydd yn cael yr effaith fwyaf cadarnhaol ar addysgu a safonau

A2 Sicrhau bod gan yr holl athrawon ddisgwyliadau uchel o'r disgyblion

A3 Sicrhau bod trefniadau cynllunio athrawon cyfnod allweddol 2 yn ddigon manwl i ddiwallu anghenion pob grŵp o ddisgyblion a'u bod yn eu gweithredu'n effeithiol

A4 Gwella medrau ysgrifennu disgyblion yn y ddwy iaith, lle'n briodol

A5 Gwella'r ddarpariaeth i alluogi disgyblion i ddefnyddio'u medrau rhifedd ar lefel briodol ar draws y cwricwlwm

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

### Safonau: Digonol ac angen gwella

Wrth gychwyn yn yr ysgol, mae medrau tua hanner o ddisgyblion yn agos i'r lefel ddisgwyliedig ar gyfer eu hoedran. Erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol, mae llawer, gan gynnwys disgyblion ag anghenion ychwanegol, yn cyflawni'n dda o'u mannau cychwyn.

Mae medrau llafar a gwrando rhan fwyaf o'r disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn dda. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn trafod eu gwaith yn fwyfwy hyderus gan ddefnyddio ystod gynyddol o batrymau iaith a geirfa addas, er enghraifft wrth ddisgrifio hanes y tair arth. Mae'r rhan fwyaf yn esbonio'u gweithgareddau a'r hyn maent yn ceisio ei wneud yn glir. Mae llawer yn mwynhau darllen ac yn gwneud cynnydd buddiol o'u mannau cychwyn. Maent yn defnyddio ystod gynyddol o strategaethau ffonig yn hyderus i adeiladu geiriau anghyfarwydd. Mae llawer o ddisgyblion yn trafod cynnwys eu llyfrau'n frwdfrydig ac yn cyfeirio'n hyderus at ddigwyddiadau a chymeriadau amrywiol. Ar y cyfan, mae llawer yn datblygu medrau ysgrifennu cadarn ac mae eu gwaith am y lleuad yn dangos eu bod yn ymestyn eu syniadau'n effeithiol ac mewn ffordd ddiddorol.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn gyfathrebwyr cryf ar lafar yn y Gymraeg a Saesneg, ac maent yn defnyddio iaith ffurfiol, lle bo'n briodol. Maent yn trafod nodweddion amlwg o fewn eu gwaith yn fedrus gan roi rhesymau teilwng am eu dewisiadau wrth greu poster sy'n hybu pwysigrwydd addysg Gymraeg. Maent yn gwrando'n astud ar safbwyntiau eu cyfoedion ac yn trafod ystod o destunau'n hyderus. Mae llawer yn defnyddio'r Gymraeg o'u gwirfodd o fewn y dosbarthiadau ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol.

Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd buddiol yn eu darllen yn y ddwy iaith. Maent yn llithr ddarllen yn fedrus i gywain gwybodaeth o wahanol destunau, gan gynnwys y we, i greu adroddiad ffeithiol am arwyr disgyblion y dosbarth. Mae mwyafrif o'r disgyblion yn adeiladu ar eu medrau ysgrifennu yn briodol gan arddangos ymwybyddiaeth bwrpasol o'u cynulleidfa. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, maent yn ysgrifennu ychydig o ddarnau estynedig yn effeithiol, er enghraifft wrth greu erthygl papur newydd am lifogydd. Fodd bynnag, nid yw safon y gwaith ysgrifennu yn ddigon cyson ac nid ydynt yn defnyddio'u medrau i'r lefel ddisgwyliedig yn ddigon aml wrth ysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Mae llawysgrifen a chyflwyniad gwaith mwyafrif o'r disgyblion yn flêr, ac maent yn arddangos diffyg balchder yn eu gwaith. Nid yw'r disgyblion yn defnyddio'u medrau ysgrifennu Saesneg yn ddigon aml ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau rhifedd llawer o ddisgyblion yn datblygu'n llwyddiannus yn y cyfnod sylfaen. Mae bron pob disgybl yn y Meithrin a Derbyn yn darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 10 o leiaf, er enghraifft wrth ddidoli gwrthrychau yn ymwneud â stori Elen Benfelen. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae gan lawer afael sicr iawn ar ffeithiau rhif i 100 a mwy. Mae eu dealltwriaeth o nodweddion siapau 2D a 3D yn fuddiol ac mae llawer yn defnyddio geirfa fathemategol yn gywir wrth ddidoli llestri'r tair arth yn ôl 'mawr', 'canolig' a 'bach'.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae dealltwriaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion o weithdrefnau rhif yn datblygu'n gryf, gyda llawer yn dechrau eu defnyddio'n bwrpasol i ddatrys problemau. Enghraifft o hyn yw dehongli amserlen bws i ddatrys problemau yn ymwneud ag amser. Fodd bynnag, nid yw disgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio eu medrau rhifedd yn ddigon rheolaidd nac i'r lefel ddisgwyliedig wrth weithio ar draws y cwricwlwm.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu ystod o fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn fedrus ac yn eu cymhwyso'n hyderus ar draws y meysydd dysgu. Er enghraifft, maent yn datblygu medrau rheoli cynnar wrth lywio'r blaidd i dai'r tri mochyn bach yn fwriadus. Mae llawer yn datblygu medrau creadigol mewn ffyrdd diddorol trwy chwarae rôl heddwas a'i ffilmio yn cyflwyno bwletin newyddion am berson coll yn dilyn digwyddiad amheus yn ymwneud ag uwd yn y dosbarth.

Yng nghyfnod allweddol 2, yn gyffredinol, mae disgyblion yn adeiladu'n briodol ar eu medrau TGCh blaenorol. Mae llawer yn cyflwyno gwybodaeth yn bwrpasol wrth ymchwilio i hanes yr Ail Ryfel Byd ac yn datblygu medrau rhaglennu cynnar yn dda wrth gynllunio gêm gyfrifiadurol. Fodd bynnag, nid yw eu gallu i ddefnyddio taenlenni i fodelu nac i ddefnyddio a chroesholi cronfa ddata wedi datblygu i'r lefel briodol.

## Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae gan bron pob disgybl agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu ac maent yn dyfalbarhau â'u tasgau gan ymdrechu'n gyson i'w cwblhau. Maent yn dangos parch tuag at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr yn gyson ac mae hyn yn un o gryfderau'r ysgol. Mae awyrgylch ddysgu gadarnhaol yn amlwg ym mhob dosbarth, ac mae hyn yn cyfrannu'n werthfawr at y cydweithio effeithiol rhwng y disgyblion a'r staff. O ganlyniad, mae ymddygiad bron pob un disgybl yn dda iawn ar bob achlysur. Mae pob un disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn gwybod at bwy i droi am gymorth a chyngor os ydynt yn gofidio am unrhyw beth ac mae ganddynt wybodaeth gadarn am sut i gadw'n ddiogel ar y we.

Mae llawer o ddisgyblion yn dylanwadu'n gadarnhaol ar fywyd yr ysgol trwy weithredu'n fwriadus ar y gwahanol bwyllgorau. Mae disgyblion y cyngor eco yn llwyddo i godi ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd bod yn ddarbodus wrth ddefnyddio trydan a dŵr, gan gadw cofnod o ddarlleniadau'r mesuryddion a chreu posteri pwrpasol. O ganlyniad, mae'r disgyblion a staff yn sicrhau bod llai o wastraffu adnoddau prin. Mae aelodau'r pwyllgor ysgolion iach yn hybu cadw'n heini a gwneud dewisiadau prydau bwyd iachus yn frwd. Maent yn sicrhau bod eu cyfoedion yn ymwybodol o fanteision ymarfer corff a bwyta'n iach drwy arddangosfa wrth brif fynedfa'r ysgol a rhannu negeseuon pwysig mewn gwasanaethau ysgol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn cymryd cyfleoedd cyson i ymarfer corff drwy redeg milltir y dydd.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos ymrwymiad cadarn i'w cymuned leol drwy amrywiol weithgareddau cyson ac maent yn ymwybodol iawn bod ganddynt ddyletswydd i roi nôl i'w cymuned leol. Enghraifft o hyn yw cynnwys trigolion y pentref yn nathliadau creu'r murlun deniadol ar wal allanol yr ysgol sy'n adlewyrchu bywyd y gymdeithas leol. Mae'r disgyblion yn aml yn cymryd rhan mewn gwasanaethau yn yr eglwys neu'r capel lleol ac yn cynnal cyngherddau yn neuadd y pentref.

Trwy wasanaethau boreol a dathliadau mewn man addoli, mae ymwybyddiaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion o bwysigrwydd tegwch a chydraddoldeb yn datblygu'n gadarn. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth aeddfed o bwysigrwydd masnach deg ac o roi cymorth i eraill llai ffodus. Enghraifft o hyn yw cyfrannu arian tuag at brynu pwmp dŵr mewn pentref yn Affrica.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwella**

Mae'r athrawon ar draws yr ysgol yn meithrin a chynnal awyrgylch ddysgu gynhaliol ac wedi datblygu perthynas waith dda â'r disgyblion. O ganlyniad, mae ymddygiad disgyblion yn nodwedd gref o fywyd yr ysgol. Cynigia'r athrawon amrywiaeth o weithgareddau sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn dda. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn cydweithio'n bwrpasol iawn. Mae hyn yn un o gryfderau'r ysgol ac yn galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd angen cymorth i gwblhau eu tasgau'n llwyddiannus. Mae'r holl staff yn modelu iaith gadarn ac maent yn cyfoethogi iaith lafar y disgyblion a'u hannog i ddefnyddio'r Gymraeg yn ffurfiol ac anffurfiol yn gyson.

Mae'r athrawon, ar y cyfan, yn sicrhau bod rhan fwyaf y gwersi yn adeiladu'n llwyddiannus ar brofiadau blaenorol. Mae cyflwyniadau'n fyr ac i bwrpas, ac mae amseriad da i'r gwersi. Mae disgwyliadau uchel o bob disgybl yn y cyfnod sylfaen ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a phrofiadau'r disgyblion. Fodd bynnag, nid yw disgwyliadau yr un mor gadarn yng nghyfnod allweddol 2 gan nad yw athrawon yn herio'r disgyblion mwy abl yn ddigonol er mwyn iddynt gyflawni hyd eithaf eu gallu. Yn rhan uchaf yr ysgol, mae gorddefnydd o daflenni gwaith yn cyfyngu ar gyfleoedd y disgyblion i ysgrifennu'n estynedig ac i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol.

Mae'r athrawon yn rhannu nod y wers gyda'r disgyblion yn gyson ac maent yn esbonio'r tasgau'n glir. Fodd bynnag, nid yw nod y wers ar bob achlysur yn ddigon pwrpasol i sicrhau cynnydd yn y dysgu. Mae athrawon yn holi'n bwrpasol er mwyn sicrhau bod dealltwriaeth gadarn gan bron pob disgybl o'r hyn maent yn ei wneud. Maent yn rhoi adborth i'r disgyblion ar sut i wella eu gwaith ymhellach gan roi cyfleoedd iddynt ymateb i'r sylwadau. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi cael digon o effaith ar y safonau ysgrifennu estynedig yng nghyfnod allweddol 2. Mae hyn yn bennaf oherwydd bod sylwadau ysgrifenedig yr athrawon yn rhy arwynebol ac nid oes disgwyliad i ddisgyblion ymateb yn ddigon ymestynnol i'r sylwadau.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu sefydlu'n llwyddiannus yn yr ysgol. Mae'r cyd-gynllunio ar draws tair ysgol y ffederasiwn, a gweithredu'r cynllunio ar lawr y dosbarth, yn sicrhau bod gofynion cwricwlwm y cyfnod sylfaen yn cael eu darparu'n llawn ynghyd â medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion. Mae'r cynllunio yn sicrhau cydbwysedd da rhwng gweithgareddau annibynnol a'r rhai sydd yn cael eu harwain gan oedolyn. Mae mynediad cyson i'r ardal allanol ac mae'r disgyblion yn elwa o weithgareddau diddorol tu fewn a thu allan i'r dosbarth. Enghraifft o hyn yw'r gweithgaredd yn dilyn canfod llanast yn y gornel gweithgareddau a dilyn llwybr yr uwd drwy'r dosbarth i'r ardal allanol i chwilio am gliwiau. O ganlyniad i brofiadau cyfoethog cyson, mae llawer o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol hyderus.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r ysgol yn darparu gweithgareddau dysgu diddorol, sy'n ennyn diddordeb llawer o ddisgyblion yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r cyd-

gynllunio ar draws y ffederasiwn ar gyfer y cyfnod allweddol hwn wedi datblygu i'r un graddau â'r cyfnod sylfaen ac nid yw athrawon yn gweithredu'r cynllunio i sicrhau bod ehangder y cwricwlwm yn cael ei gyflwyno'n gyflawn ar bob achlysur. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau meddwl trwy ymchwiliadau gwyddonol, er enghraifft.

Yn y cyfnod sylfaen, mae disgyblion yn cael cyfleoedd cyson a chyfoethog i gymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn effeithiol ar draws y meysydd dysgu. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 2, nid yw'r cynllunio ar gyfer y medrau yn sicrhau bod disgyblion yn cael digon o gyfleoedd i atgyfnerthu a datblygu eu medrau rhifedd na llythrennedd Saesneg ar draws y cwricwlwm yn ddigon cyson.

Mae'r athrawon yn darparu gweithgareddau a phrofiadau cyfoes sy'n adlewyrchu natur a chyd-destun yr ysgol a'i chymuned yn llwyddiannus. Darperir ystod o ymweliadau i fannau diddorol o fewn yr ardal a thu hwnt, er enghraifft i'r amgueddfa wlân leol a mannau o ddiddordeb yng Nghaerdydd. Mae'r gweithgareddau hyn yn datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion o'u cymuned a diwylliant Cymru yn dda, ynghyd â balchder y disgyblion yn eu bro.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar, gyfeillgar a theuluol sy'n hybu balchder a chyfle cyfartal yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae bron pob un disgybl yn teimlo'n ddiogel a hapus yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth a chyngor. Mae ymweliadau achlysurol gan y ficer i arwain gwasanaethau a chyfleoedd i'r disgyblion gymryd rhan mewn gwasanaethau yn yr eglwys a'r capel yn cyfrannu'n fuddiol tuag at ddatblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn effeithiol ac mae trefniadau cadarn ar gyfer annog bwyta ac yfed yn iach. Drwy hyn, mae aelodau'r pwyllgor ysgolion iach yn cael cyfleoedd pwrpasol i rannu negeseuon clir â chymuned yr ysgol am bwysigrwydd gwneud dewisiadau bwyd iachus. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cyson i bob disgybl allu gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu lles a'u ffitrwydd. Enghraifft o hyn yw'r pwyslais ar ymarfer corff a'r cyfle i redeg milltir y dydd. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod disgyblion yn elwa o gydweithio rhwng tair ysgol y ffederasiwn wrth roi cyfleoedd iddynt gymryd rhan mewn chwaraeon tîm fyddai'n anodd iawn heb y cydweithio hyn. O ganlyniad, mae disgyblion yn cael cyfle i gystadlu fel tîm mewn cystadlaethau chwaraeon, fel pêl-droed a chriced yr Urdd.

Mae'r athrawon yn cynllunio gweithgareddau llwyddiannus i ddatblygu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad disgyblion o hanes ac etifeddiaeth Cymru. Maent yn cyflwyno enwogion Cymru yn rheolaidd mewn gwaith dosbarth a gwasanaethau, er enghraifft trwy gyflwyno gwaith cyfansoddwyr a chantorion enwog. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol disgyblion yn dda ac mae cyfleoedd buddiol i bob disgybl astudio gwaith, a chydweithio ag arlunwyr lleol. Drwy hyn, cafodd y disgyblion gyfle i gyfrannu eu syniadau am beth sy'n bwysig yn eu cymuned gan creu murlun mawr deniadol ar wal allanol yr ysgol. Wrth gymryd rhan yn eisteddfodau'r Urdd a chyngherddau yn y pentref, mae llawer o'r disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ymwneud â'r celfyddydau creadigol. Trwy'r gweithgareddau amrywiol hyn, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o hanes eu cymuned a diwylliant Cymru.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddylanwadu ar elfennau dyngarol er mwyn hybu dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang. Trwy roi cyfle i ddisgyblion gynnig syniadau ar y goeden dymuniadau, mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd iddynt rannu eu syniadau am sut i helpu pobl sy'n llai ffodus a hyrwyddo masnach deg.

Mae trefn effeithiol i olrhain ac asesu cynnydd disgyblion. Mae'r pennaeth ac athrawon yn defnyddio'r wybodaeth yn briodol wrth ddadansoddi asesiadau a deilliannau profion cenedlaethol er mwyn adnabod y disgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol mewn llythrennedd neu rifedd. Mae'r ysgol yn adnabod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar, ac mae trefniadau cadarn yn eu lle ar gyfer eu cynorthwyo i wneud cynnydd priodol yn dilyn ymyraethau penodol. Mae'r cymorthyddion yn ymwybodol iawn o dargedau gwella'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac yn rhoi cymorth pwrpasol yn ôl yr angen. Mae staff yn monitro cynnydd disgyblion sy'n derbyn ymyraethau yn gyson ac yn addasu neu ddileu'r cymorth, lle'n briodol.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus gydag asiantaethau allanol i dderbyn cyngor a chefnogaeth am sut i ymateb yn effeithiol i anghenion dysgu ychwanegol penodol disgyblion. Er enghraifft, mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gydag athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol er mwyn addasu a mireinio'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion ieithyddol penodol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Trwy weithio mewn partneriaeth â'r swyddog heddlu lleol, mae'r ysgol yn cynnig gweithgareddau effeithiol i ddatblygu gwybodaeth disgyblion am sut i gadw eu hunain yn ddiogel mewn gwahanol sefyllfaoedd. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer datblygu dealltwriaeth disgyblion o gadw'n ddiogel wrth ddefnyddio'r we yn datblygu'n gadarn, ac mae'r pwyllgor digidol yr ysgol yn cael cyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo hyn trwy bosteri yn y dosbarthiadau.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwella

Mae'r pennaeth wedi sefydlu gweledigaeth synhwyrol ar gyfer yr ysgolion o fewn y ffederasiwn sy'n sicrhau eu bod yn medru parhau i ddarparu addysg gynhwysol i ddisgyblion o fewn eu cymunedau. Mae'r pennaeth ac aelodau'r corff llywodraethol wedi rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda'r athrawon, y staff cynorthwyol, y rhieni a'r disgyblion. Mae rhan fwyaf y polisïau a'r dogfennau strategol yn gyffredin ar draws holl ysgolion y ffederasiwn. Mae hyn yn hybu undod a chydweithio ar bob lefel, ac yn fodd i geisio lleihau baich gwaith y staff tra'n sicrhau cysondeb yn y profiadau a ddarperir i ddisgyblion. Mae arweinwyr yn gweithio'n ddyfal i ddatblygu'r ffederasiwn fel canolfan ddysgu effeithiol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr a rheolwyr ar bob lefel yn gosod disgwyliadau sy'n ddigon uchel ar gyfer yr holl staff na'r disgyblion. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth a'r safonau yn amrywio gormod o fewn ac ar draws yr ysgolion a arolygwyd.

Mae'r disgrifiadau swyddi yn adlewyrchu mwyafrif o gyfrifoldebau'r staff yn deg. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn nodi ychydig gyfrifoldebau allweddol sy'n cael eu gweithredu ac sy'n hanfodol i'r ysgolion redeg yn effeithiol o ddydd i ddydd.

Cynhelir cyfarfodydd staff amrywiol ar y cyd ar draws ysgolion y ffederasiwn ac o fewn yr ysgolion unigol. Mae'r cyfarfodydd hyn yn rhoi ffocws clir ar godi safonau a gwella ansawdd y ddarpariaeth. Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd priodol i staff rannu nodweddion cadarnhaol o'u gwaith gyda'u cydweithwyr o fewn eu hysgol ac

ysgolion eraill y ffederasiwn. Maent hefyd wedi dechrau cydweithio ag ysgolion eraill sydd wedi ffedereiddio i rannu eu harferion. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau yn y rhan fwyaf o'r dosbarthiadau.

Mae'r gweithdrefnau rheoli perfformiad yn briodol ac yn caniatáu i arweinwyr adnabod anghenion proffesiynol unigolion a darparu cymorth a hyfforddiant penodol iddynt ddatblygu a gwella'u harferion o fewn eu dosbarth. Lle mae athrawon wedi manteisio ar y cyfleoedd hyn, mae'r effaith yn gadarnhaol ar y ddarpariaeth a'r safonau. Fodd bynnag, nid yw ychydig o'r athrawon o fewn y ffederasiwn wedi manteisio'n llawn ar y gefnogaeth a ddarparwyd. O ganlyniad, nid yw llawer o strategaethau addysgu yn ddigon effeithiol mewn ychydig ddosbarthiadau, yn benodol yn un o'r ysgolion.

Mae hyrwyddo'r Gymraeg a'r diwylliant Cymreig yn ganolog i holl waith a bywyd yr ysgolion ac mae arweinwyr yn cynllunio'n lled briodol i ddarparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu'u medrau mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Rhoddwyd blaenoriaeth i ddatblygu medrau llafar Cymraeg y disgyblion yn ddiweddar sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar eu safonau yn y maes hwn.

Mae gan aelodau'r corff llywodraethol ymwybyddiaeth gynyddol o'r hyn sy'n gweithio'n effeithiol yn yr ysgolion ynghyd â nifer o'r materion sydd angen eu gwella. Maent yn cefnogi'r ysgolion yn dda ac yn herio'r pennaeth mewn modd hynaws ond addas pan fo angen. Fodd bynnag, mae'r llywodraethwyr wedi bod yn rhy araf i fynd i'r afael â materion pwysig sy'n ymwneud ag addysgu yn un o'r ysgolion. Mae hyn wedi cael effaith andwyol ar gynnydd a chyrhaeddiad ychydig o ddisgyblion.

Mae gan y ffederasiwn weithdrefnau cynhwysfawr ac uniongyrchol i werthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth a safonau. Fodd bynnag, mae'r adroddiadau sy'n deillio o'r rhain yn aml yn rhy gadarnhaol ac nid ydynt bob amser yn adlewyrchu'r sefyllfaoedd yn ddigon cywir. O ganlyniad, nid yw ychydig o athrawon bob amser yn sylweddoli'r graddau y mae angen iddynt wella'u harferion.

Lle mae arweinwyr wedi adnabod meysydd penodol sydd angen eu datblygu, ac wedi cynllunio strategaethau priodol i fynd i'r afael â nhw, mae'r sefyllfa wedi gwella. Mae'r blaenoriaethau a nodir yn y cynllun datblygu presennol yn cysylltu'n uniongyrchol â deilliannau gweithdrefnau hunanwerthuso'r ysgol. Er hyn, mae ychydig agweddau pwysig lle nad yw'r ysgol wedi eu hadnabod fel agweddau sydd angen eu gwella. Er enghraifft, nid yw wedi adnabod yr angen i ddatblygu medrau ysgrifennu disgyblion na'u defnydd o rifedd ar lefel briodol ar draws y cwricwlwm.

Ar y cyfan, mae'r ysgolion yn defnyddio'u hadnoddau yn effeithlon. Mae penderfyniadau gwariant a chynllunio ariannol yn cysylltu'n briodol â'r blaenoriaethau strategol a chynllunio ar gyfer gwelliant. Mae lefel y staffio ar y cyfan yn briodol ac mae digon o adnoddau dysgu ar gael ar bob safle i gyflwyno'r cwricwlwm. Mae arweinwyr yn cynllunio gweithgareddau ar y cyd sy'n galluogi disgyblion o'r gwahanol ysgolion o fewn y ffederasiwn i ddod ynghyd yn rheolaidd a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol ac addysgol. Mae hyn yn ehangu'r cyfleoedd iddynt ac yn eu paratoi'n dda ar gyfer y camau nesaf yn eu haddysg.

Mae'r ysgolion yn gwneud defnydd darbodus a priodol o wahanol grantiau, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion a'r grant ysgolion bach gwledig i godi safonau a gwella lles disgyblion. Mae arweinwyr yn gwerthuso effeithiolrwydd y grantiau hyn yn effeithiol yn nhermau cynnydd, lle'n briodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 01/04/2019